

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Fynwy

Rhagfyr 2021

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Fynwy

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

1. Y targed deng mlynedd

Croesawn y ffaith fod Sir Fynwy yn anelu i ragori ar y darged a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnydd disgwylidig yn ystod cyfnod y Cynllun o ran nifer/canran y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol. Mae tudalen 2 o'r Cynllun drafft yn awgrymu mai at blant Dosbarth Derbyn y mae'r targed yn cyfeirio, ond mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n glir iawn mai targed ar gyfer plant Blwyddyn 1 yw hwn – mae hynny'n wahaniaeth bwysig. Mae'r targed yn cael ei nodi'n gywir ar dudalennau 18-19.

Tra'n croesawu'r twf sydd wedi digwydd, ac a gynllunnir, ar gyfer nifer y llefydd gofal plant cyfrwng Cymraeg, rydym yn cytuno gyda'r dadansoddiad bod dirfawr angen datblygu'r addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Hoffem weld mwy o fanylion ynghylch y cynigion i gyrraedd y targed, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu.

Mae cwestiwn yn codi ynghylch sut y cyfrif nifer y disgyblion uwchradd sy'n derbyn eu haddysg o fewn y sir. Yr awgrym, ar dudalen 5, yw nad yw disgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cyfrif tuag at gyfansymiau disgyblion Sir Fynwy, am ei bod tu allan i'r awdurdod – ond bod disgyblion Ysgol Gyfun Gwynllyw yn cyfrif tuag at y cyfansymiau, er ei bod hithau hefyd tu allan i'r awdurdod. A yw hynny'n gywir?

2. Deilliant 1 – Mwy o blant Meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Gobeithiwn y bydd modd nodi canfyddiadau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diweddaraf erbyn i fersiwn terfynol y Cynllun gael ei gyhoeddi. Bydd y wybodaeth o'r Asesiad yn greiddiol i gynlluniau'r Awdurdod.

Nodwn fod y ffaith nad oedd unrhyw deulu wedi nodi angen/awydd am ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn ystod Asesiad 2017 yn awgrymu'n gryf iawn nad yw trefniadau hyrwyddo gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yr awdurdod yn ddigon egniol nac effeithiol. Nid oes unrhyw beth anghyffredin, o edrych ar siroedd dwyreiniol eraill, mewn niferoedd cymharol fach o deuluoedd ble mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd. Yr hyn sy'n bwysig yw darparu'r math iawn o wybodaeth mewn modd hynod ragweithiol. Rydym yn falch clywed am y gwaith sydd wedi digwydd dros y tair blynedd diwethaf gyda RhAG a phartneriaid rhanbarthol, ond nodwn nad yw rhoi'r wybodaeth ar wefan yn ddigon - rhaid ei hyrwyddo, a rhaid dod o hyd i sianeli a dulliau amrywiol o sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd y gynulleidfa darged. Er enghraifft, a yw'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd yn derbyn hyfforddiant er mwyn lledaenu gwybodaeth fel rhan o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am fanteision dwyieithrwydd? Nid oes sôn 'chwaith am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Byddai'n dda gweld y ddarpariaeth bresennol yn cael ei mapio, er mwyn gweld ble mae'r bylchau daearyddol amlwg. Nid yw'r mwyafrif helaeth o deuluoedd yn debygol o ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg oni bai ei bod o fewn cyrraedd hwylus. Yn ogystal mae prinder data yma ynghylch niferoedd y plant sy'n mynychu'r lleoliadau sydd eisoes yn bodoli.

Byddai'n dda gweld gwybodaeth ynghylch lefel sgiliau ieithyddol y gweithlu, er mwyn gallu cynllunio ar gyfer twf. Rydym yn croesawu'r cynigion ynghylch prentisiaethau yn y maes hwn.

3. Deilliant 2 – Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Byddai'n dda gweld y data dilyniant o ofal plant/darpariaeth feithrin i addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny fesul lleoliad. Byddai hynny'n ei wneud yn haws i weld ble yn union mae angen targedu ymdrechion i gyrraedd y nod cymeradwy o gyfradd dilyniant o 95%.

Rydym yn croesawu'n fawr y bwriad i sefydlu ysgol gynradd newydd erbyn Medi 2023. Mi ddylai hyn ddod ag addysg Gymraeg yn agosach at lawer o deuluoedd ac felly ei gwneud yn opsiwn llawer mwy ymarferol.

Croesawn yn ogystal y bwriad i adleoli ac ymestyn Ysgol y Fenni. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn ynghylch dalgylch eang iawn yr ysgol honno yn parhau. Mae llawer o ddysgwyr yn teithio'n bell iawn i'w chyrraedd, ac mae hynny'n sicr yn rhwystr i nifer o deuluoedd.

Sut yn union y bwriedir cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu Ysgol y Ffin?

Croesawn y datblygiadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn ne'r sir, a'r cynlluniau i ddatblygu ymhellach. Ond nid oes sôn yma am ddarpariaeth gyfatebol yng ngogledd y sir. Oes cynlluniau i wneud hynny?

4. Deilliant 3 – Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Hoffem weld tabl gyda'r data dilyniant dros gyfnod o sawl blwyddyn (4 neu 5) fesul ysgol. Nodwn fod y ganran gyffredinol o 74.2% - 83.7% yn eithaf da, a hynny o ganlyniad i'r partneriaethau a'r gwaith caled rhwng ysgolion unigol. Ond mae lle i wella ymhellach, fel y mae'r Cynllun yn ei gydnabod, ac rydym yn cymeradwyo'r targed o 95%.

Mae camgymeriad yn yr ail baragraff, sy'n cyfeirio at 'agor dwy ysgol gynradd uwchradd' – cymerwn mai dwy ysgol uwchradd ddylai hyn fod.

Cefnogwn yn gryf iawn y cynnig i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd, o bosib ar y cyd gyda Blaenau Gwent a Phowys. Bydd darpariaeth o fewn cyrraedd hwylus, o gael y lleoliad yn gywir, yn siŵr o sbarduno twf yn y niferoedd. Bydd rôl hanfodol gyda'r adolygiad cludiant i'w chwarae o ran hyn.

5. Deilliant 4 – Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Cymerwn mai camgymeriad yw'r gwahaniaeth (ar dudalen 29) yn y niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc ym Mlwyddyn 12 (sef 11) ac ym Mlwyddyn 13 (sef 354?).

6. Deilliant 5 – Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Rydym yn croesawu'r cynigion yn yr adran hon.

7. Deilliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yn gwerthfawrogi'r dadansoddiad gonest o'r sefyllfa ar hyn o bryd, ac yn cefnogi'r cynigion yn yr adran hon.

Gan fod prinder staff arbenigol yn broblem, ac yn debygol o gymryd amser i'w ddatrys, a ddylid fod fwy o ystyriaeth i strwythurau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys lefel uwch o gefnogaeth am y consortiwm rhanbarthol?

8. Deilliant 7 – Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Rydym yn cydnabod na all yr awdurdod ddatrys y broblem hon ar ei phen ei hun, a bod cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn ddibynnol i raddau helaeth ar gynlluniau cenedlaethol, ac ar gefnogaeth gref gan y GCA yn rhanbarthol.

Gan fod gan Sir Fynwy lais yn rheolaeth GCA, rhaid sicrhau bod gofynion yr awdurdodau lleol am gefnogaeth yn y maes hwn yn cael eu lleisio'n gryf, ac yn dod yn rhan o gynlluniau a gweithgareddau'r consortiwm.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru